OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 2736

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) (Cymru) 2004

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 8 Tachwedd 2004.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 1989" yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau a Cheisiadau Tybiedig) 1989(**1**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

### Cynnydd cyffredinol mewn ffioedd

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau 1989, yn unol â darpariaethau'r rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 10A o Reoliadau 1989—

(a) ym mharagraff (5)(b), yn lle "£110" rhowch "£120"; a

(b) ym mharagraff (6), yn lle "£220" rhowch "£240" ac yn lle "£11,000" rhowch "£12,100".

(3) Yn rheoliad 11A o Reoliadau 1989—

(a) ym mharagraff (1)(a), yn lle "£40" rhowch "£45"; a

(b) ym mharagraff (1)(b), yn lle "£220" rhowch "£240".

(4) Yn Rhan I o Atodlen 1 i Reoliadau 1989—

(a) ym mharagraffau 4(1) a 6(2), yn lle "£220" rhowch "£240";

(b) ym mharagraffau 7, 7A a 7B, yn lle "£110" rhowch "£120"; ac

(c) ym mharagraff 15(2), yn lle "£220" rhowch "£240" ac yn lle "£5,550" rhowch "£6,050".

(5) Yn lle Rhan II o Atodlen 1 i Reoliadau 1989 (graddfa ffioedd), rhowch y Rhan II newydd a welir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

(6) Yn lle Atodlen 2 i Reoliadau 1989 (graddfa ffioedd am geisiadau am hysbysebu), rhowch yr Atodlen 2 newydd a welir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

### Dirymu

**3.** Dirymir drwy hyn Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2002(**2**) ac, mewn perthynas â Chymru, paragraff 11 o Ran I o Atodlen 1 i Reoliadau 1989.

(**1**) O.S. 1989/193, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1990/2743, 1991/2735, 1992/1817, 1992/3052, 1993/3170 a 1997/37 ac fel y'i diwygiwyd ymhellach, mewn perthynas â Chymru, gan O.S. 2002/1876 (Cy.185) a 2002/2258 (Cy.222).

(**2**) O.S. 2002/2258 (Cy.222).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D. Elis-Thomas*

19 Hydref 2004

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.